



**Cofrestru Cwrs Byr CBAC (Cyfnewid 3125CT, QN C00/1167/4)
a Chwrs Llawn (Cyfnewid 3120CS neu 3121CS, QN C00/1167/3)
TGAU Astudiaethau Crefyddol**

Fel yr amlinellir ym manyleb TGAU Astudiaethau Crefyddol CBAC, gall ymgeiswyr ddilyn Uned 1:

- a chyfnewid am y cymhwyster cwrs byr
- cyn dilyn Uned 2 neu Uned 3 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn ar ddiwedd y cwrs
- yn yr un gyfres ag Uned 2 neu Uned 3 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn.

Lle mae ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 am y dyfarniad cwrs byr, ni all y canlyniad o Uned 1 wedyn gyfrannu at ddyfarniad cwrs llawn.

Mae'n bwysig nodi fod ymgeiswyr:

- **yn cael** cyfnewid cwrs llawn a chwrs byr yn yr un gyfres **os ydynt wedi cwblhau unedau digonol i ganiatáu'r ddau gyfnewid ar gyfer yr un gyfres**. Er enghraifft, efallai eu bod wedi sefyll Uned 1 ym mlwyddyn 10 ac yna mynd ymlaen i sefyll Uned 1 eto, ynghyd ag Uned 2 neu Uned 3 ym mlwyddyn 11.
- **ddim yn cael cofrestru ar gyfer** mwy nag un opsiwn ar gyfer Uned 1 yn yr un gyfres (noder bod yr holl opsiynau wedi'u hamserlennu ar gyfer yr un slot arholiad).

Ar gyfer ymgeiswyr sy'n cyfnewid cymhwyster cwrs byr a chwrs llawn **yn yr un gyfres, er mwyn bodloni gofynion terfynol**, bydd CBAC yn prosesu'r **cyfnewid cwrs byr yn gyntaf** (h.y. bydd y marc y maent yn ei gael ar gyfer Uned 1 yn y gyfres honno yn cael ei defnyddio i gyfrifo gradd y cwrs byr waeth a yw'n uwch neu'n is na'r marc a gafwyd ar gyfer Uned 1 flaenorol). Gall hyn felly gael effaith andwyol ar radd gyffredinol y cwrs llawn.

Noder **na fydd** gan ganolfannau **hawl** i gael gwared ar unrhyw gyfnewid unwaith **y bydd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi**. Os yw canolfan yn dymuno dileu cyfnewid unrhyw ymgeisydd, **rheid cyflwyno ffeil ddiwygio yn y ffordd arferol cyn 1 Awst** ym mlwyddyn y cyfnewid.